Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gelli Aur Golden Grove
# Orange Way
# Penfro
# Sir Benfro
# SA71 4DP

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gelli Aur Golden Grove

Mae Ysgol Gynradd Gelli Aur Golden Grove wedi'i lleoli ym Mhenfro, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i'w disgyblion, mewn dwy ffrwd iaith. Mae 389 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 41 o ddisgyblion rhan-amser a 27 o ddisgyblion amser llawn yn y dosbarth meithrin. Rhennir y disgyblion yn 12 dosbarth, gan gynnwys saith dosbarth oed cymysg. Mae pedwar o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ac wyth dosbarth cyfrwng Saesneg.

Tua 21% yw cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig uwchlaw'r cyfartaledd i Gymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig bach iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig bach iawn ohonynt yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac ychydig bach iawn o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd yn Ebrill 2015. Cynhaliwyd arolygiad blaenorol yr ysgol ym Mawrth 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gelli Aur Golden Grove yn gwneud cynnydd da ar y cyfan o'u mannau cychwyn. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn trin ei gilydd gyda gofal a pharch. Fodd bynnag, mae medrau llythrennedd Cymraeg llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg wedi'u tanddatblygu. Mae llawer o athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n symbylu disgyblion i ddysgu, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel bob amser ac nid yw'r tasgau'n herio pob grŵp o ddisgyblion yn ddigonol bob amser.

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n dda gyda staff ac arweinwyr i wella'r ddarpariaeth a'r safonau mewn meysydd pwysig. Mae ganddynt weithdrefnau defnyddiol ar gyfer dadansoddi gwaith yr ysgol a nodi meysydd i'w datblygu, ond nid ydynt yn nodi pob maes yn gywir bob amser. Er bod yr ysgol yn datblygu'r defnydd ar y Gymraeg yn llwyddiannus ar draws y ffrwd Saesneg, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael statws digon uchel ym mywyd a gwaith yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Gymraeg

A2 Sicrhau bod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel er mwyn herio pob disgybl yn effeithiol

A3 Sicrhau cysondeb a chywirdeb mewn asesiadau athrawon yn y ffrwd Gymraeg

A4 Gwella ansawdd gweithdrefnau monitro er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn well

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau llythrennedd cryf. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn siarad yn hyderus ac yn mwynhau trafod eu gwaith gydag eraill. Maent yn darllen gyda dealltwriaeth ac yn siarad am eu hoff awduron a straeon gyda hyder. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau estynedig yn annibynnol ac yn defnyddio geirfa gyfoethog yn eu hysgrifennu, fel disgrifio anghenfil y môr yn 'huge, massive even bigger than two elephants!' Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol mewn meysydd dysgu eraill ac i'r un lefel ag yn eu gwersi iaith. Yn y ffrwd Gymraeg, mae medrau llythrennedd cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cynnwys geiriau Cymraeg cyfarwydd mewn sgyrsiau yn hyderus ac yn gwneud ymdrechion priodol i ysgrifennu'n ffonetig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol er mwyn datblygu'u medrau llythrennedd yn effeithiol. Mae eu geirfa a'u dealltwriaeth o gystrawen yn wan. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg, i ddarllen a deall testunau, ac i ysgrifennu'n annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando da. Maent yn cyfrannu'n dda at drafodaethau'r dosbarth gan ddefnyddio geirfa briodol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn trafod effaith hiliaeth a gwahanu, gan ddangos empathi a defnyddio geirfa soffistigedig. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa ddiddorol ac yn mynegi eu syniadau a'u barn yn aeddfed, gan roi ystyriaeth briodol i'r gynulleidfa. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu darllen, gydag enghreifftiau o ddarllenwyr brwd a chymwys iawn ym mlynyddoedd olaf cyfnod allweddol 2. Dangosant ddefnydd o amrywiol strategaethau yn dda ac maent yn cymhwyso'r rhain yn briodol at ddibenion amrywiol, fel sgimio neu sganio i gael gwybodaeth yn gyflym. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gynnwys a gallant ymateb yn hyderus i amrywiol destunau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth dda o amrywiaeth o genres ysgrifennu a mathau o destunau ac maent yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau ysgrifenedig estynedig yn dda, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o eirfa, cyffelybiaethau a throsiadau diddorol a chyfoethog i greu effaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflwyno'u gwaith yn daclus ac yn ailddrafftio darnau o destun yn dda i wneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn y ffrwd Gymraeg yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd Cymraeg. Nid oes ganddynt amgyffrediad digonol o gystrawen a geirfa briodol i fynegi'u hunain yn rhugl ar lafar ac yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae hyn hefyd yn amharu ar eu gallu i ddarllen yn rhugl a thrafod y cynnwys ar lefel sy'n cyd-fynd â'u hoed a'u gallu. O ganlyniad, mae eu medrau ysgrifennu wedi'u tanddatblygu yn y ddwy iaith.

Mae medrau Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos diddordeb a brwdfrydedd mewn gwersi. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd priodol ac yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion cyfarwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'u

dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion ac yn eu defnyddio'n hyderus i ddechrau mynegi eu meddyliau a'u syniadau. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu priodol trwy ddilyn patrymau brawddegau cyfarwydd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif, siâp, mesur a thrafod data. Defnyddiant y medrau hyn yn dda wrth ddatrys amrywiaeth o broblemau. Er enghraifft, mae disgyblion derbyn yn trefnu pysgod yn ôl maint yn llwyddiannus, gan ddefnyddio ciwbiau i fesur y gwahaniaeth mewn maint. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifyddeg pen yn effeithiol yn eu gweithgarwch 'Number Ninja' i sicrhau bod eu colofnau'n adio i'r un rhif. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol am fathemateg ac ar eu medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 4 yn mesur hyd ochrau polygonau yn llwyddiannus i gyfrifo hyd y perimedr, a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio'u gwybodaeth yn bwrpasol i gyfrifo cyfaint gwahanol giwbiau a chiwboidau. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ystod eu hymchwiliadau gwyddoniaeth, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn creu a dehongli graff llinell yn fedrus i gymharu tymheredd amrywiol dŵr mewn tiwbiau profi, wrth geisio dangos pam mae pengwiniaid yn gwasgu at ei gilydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gefnogi eu dysgu wrth ymchwilio i bwnc, trin a thrafod data, rhaglennu, cyflwyno a chyfleu gwybodaeth. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o fedrau i ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, gwnânt animeiddiad o granc yn cerdded ar draws gwely'r môr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd at lwyfan dysgu rhithwir Cymru ac yn llywio'u ffordd at feddalwedd berthnasol i gael at eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio taenlenni a chronfeydd data yn llwyddiannus i drin data a chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth ddefnyddio taenlenni i ddehongli a chreu graffiau'n seiliedig ar batrymau'r tywydd mewn mannau amrywiol ar hyd a lled y byd, gan gynnwys Reykjavik, Barcelona a Nepal. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn dda i atgyfnerthu eu dysgu ar draws y cwricwlwm, yn aml yn cyfuno amrywiaeth o fedrau, meddalwedd ac apiau i greu cyflwyniadau amlgyfrwng. Er enghraifft, crëodd disgyblion Blwyddyn 6 'Fashion Vlog', gan ddefnyddio technoleg sgrin werdd ac apiau yn effeithiol i ddal diddordeb y gwyliwr.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael gofal da a'u bod yn cael eu parchu. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth sicr o werthoedd yr ysgol, sef parch, parodrwydd a chyfrifoldeb, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w bywyd bob dydd. O ganlyniad, dangosant barch ac agwedd ofalgar tuag at ei gilydd, er enghraifft gan ddefnyddio'r 'Fainc Ffrindiau' yn ystod amser egwyl, cymryd rhan mewn sesiynau ioga dyddiol a defnyddio'r 'Cwtch' i gyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad a'u gwydnwch emosiynol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos goddefgarwch tuag at ei gilydd mewn dosbarthiadau ac ar yr iard chwarae. Mae bron bob un ohonynt yn deall yn glir at bwy i droi i ofyn am help gyda gwaith neu unrhyw faterion eraill a allai godi.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ffocws yr ysgol ar wella presenoldeb ac maent yn deall pa mor bwysig yw dod i'r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella presenoldeb ac mae hyn wedi gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau synhwyrol o ran bwyta ac yfed, er enghraifft trwy dyfu eu llysiau eu hunain a beicio i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ymarfer corff i'w hiechyd a'u lles, ac mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn clybiau ar ôl ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o rolau arwain trwy'r grwpiau llais y disgybl niferus, er enghraifft y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r 'Y Criw Cymraeg'. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion wedi gohebu â'r awdurdod lleol i fynegi pryder am golli rhan o dir yr ysgol i ddatblygiad tai.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus, yn ymroi'n dda i'w dysgu ac yn cydweithio'n dda mewn amrywiol gyd-destunau dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau, grwpiau bychain a sefyllfaoedd dosbarth cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gwestiynau ac yn cymryd rhan weithgar mewn trafodaethau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau a defnyddiant strategaethau amrywiol yn dda er mwyn llwyddo. Er enghraifft, mae disgyblion derbyn yn dangos gwydnwch pan fyddant yn cael trafferth torri allan eu pysgod ac mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datrys problemau heriol wrth godio heb fod angen gofyn i'w hathro am gymorth.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae bron bob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion a dangosant barch tuag at ei gilydd. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol a chyffrous. Maent yn cynllunio'n addas ar draws y ddwy ffrwd iaith i sicrhau parhad a dilyniant ym medrau disgyblion yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn sicrhau gweithgareddau cyfoethog, cyffrous, sy'n symbylu diddordebau disgyblion yn dda ac yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae staff wedi datblygu amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored pwrpasol a bywiog sy'n galluogi disgyblion i adeiladu ar ddysgu blaenorol yn dda a chymhwyso'u medrau'n dda mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad disgyblion a gweithgareddau dan arweiniad oedolion, trwy brofiadau dysgu trwy brofiad a dysgu gweithredol effeithiol. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion a gofynnant gwestiynau heriol, sy'n annog disgyblion i feddwl ac yn atgyfnerthu eu dysgu yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio ar y cyd yn briodol i sicrhau bod disgyblion ar draws y ddwy ffrwd iaith yn cael profiadau dysgu tebyg. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblon yn adeiladu ar eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth

yn briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion ac maent yn sicrhau cyflymder da yn ystod gwersi. Gosodant amcanion dysgu clir a defnyddiant amrywiaeth o adnoddau yn dda i ennyn diddordebau'r disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod senarios go iawn heriol sy'n caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio'u gwybodaeth a'u medrau i ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio'u medrau rhifedd a TGCh yn effeithiol i bennu'r prisiau gorau ar gyfer bwyd i'w parti 60au. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac nid yw'r tasgau yn herio pob grŵp o ddisgyblion yn ddigonol. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw cynllunio'r athrawon bob amser yn cyflwyno amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n atgyfnerthu medrau a gwybodaeth disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd pwrpasol i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o'r athrawon yn fodelau da o iaith. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn y ffrwd Gymraeg bob amser yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion atgyfnerthu eu defnydd ar y Gymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Ym mhob dosbarth, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd pwrpasol i gyfrannu eu syniadau at gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu. Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth pwrpasol a rheolaidd i ddisgyblion ar y pethau a wnânt yn dda a'r pethau y gallant eu gwneud i wella'u gwaith. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol yn ystod gwersi ac yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymateb a gwella'u gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn y ffrwd Saesneg yn dda ac mae pwys cadarn ar hyrwyddo'r iaith. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfleoedd addas i wella'u medrau iaith eu hunain er mwyn helpu disgyblion i ddysgu. Er enghraifft, mae lleiafrif o athrawon wedi manteisio ar hyfforddiant sabothol i wella'u hyder a'u medrau i gyflwyno gwersi Cymraeg, sy'n bodloni anghenion eu disgyblion yn dda. Hefyd, mae ychydig gynorthwywyr addysgu wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant pwrpasol yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo disgyblion i ddysgu'r iaith yn y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae staff yn cyflwyno gwersi a gweithgareddau pwrpasol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn y ddwy ffrwd iaith bob amser yn cynllunio'n ddigonol i alluogi disgyblion i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru, gan gynnwys hanes cyfoethog eu hardal leol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion trwy amrywiaeth o themâu a phynciau trawsgwricwlaidd pwrpasol. Mae hyn yn arbennig o gryf ar draws y rhan fwyaf o'r cyfnod sylfaen ac mewn llawer o ddosbarthiadau cyfnod allweddol dau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh i ehangu eu dysgu mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a heriau cyffrous sy'n caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft wrth ddefnyddio technoleg sgrin werdd i gynhyrchu hysbyseb teledu sy'n hyrwyddo saith rhyfeddod y byd. Hefyd, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd diogelwch ar-lein trwy brofiadau addas o amrywiaeth o ffynonellau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r ysgol yn darparu ethos gofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion, gyda ffocws clir ar ddatblygu'u lles emosiynol a chymdeithasol. Mae amrywiaeth eang o drefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi creu lle diogel i ddisgyblion yn ardal 'Cwtch' i ymlacio neu ddelio ag unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae'r grŵp annog amser cinio, y 'Sunshine Club', ynghyd â grwpiau ymyrraeth eraill, wedi cael effaith gadarnhaol ar wella lles disgyblion. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth fuddiol i ddisgyblion ag anghenion addysgol ac emosiynol, fel darpariaeth y dosbarth annog. Mae disgyblion yn y dosbarth hwn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu mewn awyrgylch cefnogol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn briodol drwy'r cwricwlwm ac addoli ar y cyd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn trafod yn aeddfed sut roedd Martin Luther King yn hollbwysig o ran newid safbwyntiau pobl am arwahanu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer safoni data ar gynnydd disgyblion yn fewnol. O ganlyniad, mae gan lawer o athrawon ddealltwriaeth sicr o sut i asesu cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn gywir. Yn y dosbarthiadau hyn, mae barnau'r athrawon yn gadarn a chywir. Fodd bynnag, yn y ffrwd Gymraeg, mae asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn aml yn rhy hael ac nid ydynt yn adlewyrchu'r safonau mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi ac yn eu llyfrau.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata yn briodol i olrhain cynnydd unigol disgyblion a nodi eu hanghenion penodol. Trwy bartneriaethau effeithiol â Dechrau'n Deg ac asiantaethau allanol, mae arweinwyr yn nodi anghenion yn gynnar ac yn cynllunio strategaethau buddiol i ymdrin â'r rhain. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd Saesneg, rhifedd, cymdeithasol ac emosiynol llawer o ddisgyblion. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn mynd ati i addasu rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion unigol pan fydd angen. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol ac mae'n gweithio'n agos gyda nhw i gynnig cymorth i ddisgyblion a theuluoedd, yn ôl yr angen. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r prosiect i ddisgyblion sy'n dioddef problemau gorbryder, yn enwedig wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau cryf iawn â rhieni. Mae cyfleoedd buddiol ar gael yn rheolaidd i rieni sy'n eu galluogi i gefnogi eu plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithdai i rieni yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu'u dealltwriaeth o sut i helpu eu plant gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd. Trwy weithgareddau fel 'Diwrnod gwneud gwahaniaeth', mae rhieni, gan weithio ochr yn ochr â'u plant, wedi cynorthwyo'r ysgol yn dda i wella tir yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gwella'i chyfathrebu â rhieni ac mae ap, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyron yr ysgol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo defnydd disgyblion ar y Gymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn raddol. Er enghraifft, mae cyflwyno'r 'Criw Cymraeg' a Siarter y

Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg disgyblion a'u gwerthfawrogiad o'r iaith yn y ffrwd Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn sicrhau bod statws digon uchel gan y Gymraeg. Er enghraifft, mae'r iaith ar wefan yr ysgol, ei chyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ei gohebiaeth mewn Saesneg yn unig fel arfer. Nid yw hyn yn galluogi rhieni i gael at wybodaeth yn yr iaith o'u dewis nac yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw i ddisgyblion.

Cryfder yn yr ysgol yw'r amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn digwyddiadau chwaraeon a chreadigol. Er enghraifft, mae côr, cerddorfa a phumawd pres yr ysgol yn perfformio'n rheolaidd yn y gymuned ac yn cystadlu mewn cystadlaethau lleol. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon, fel golff a hyfforddiant beicio. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, mae disgyblion, staff a rhieni wedi cymryd rhan yn eu reid feiciau 'Tour de Pembroke' eu hunain. Felly, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd sut i gadw'n heini ac yn iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi rhannu ei weledigaeth gyda'r holl staff yn effeithiol, sydd wedi arwain at ethos cadarnhaol o ddarparu llwyfan dysgu sicr i ddisgyblion ddatblygu ohono. Mae wedi gwneud nifer o welliannau allweddol i'r ysgol, sy'n cynnig cyfeiriad strategol pwrpasol i'w gwaith, er enghraifft trwy weithio ochr yn ochr â staff i ddatblygu addysgeg y cyfnod sylfaen a gwella ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn ogystal ag ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu a gweithredu strwythur arwain clir. Gyda chymorth y corff llywodraethol, mae wedi penodi aelodau staff newydd i rolau strategol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn deall eu rôl a sut maent yn cyfrannu at godi safonau. Fodd bynnag, nid yw ychydig arweinwyr bob amser yn gosod disgwyliadau digon uchel ar gyfer staff, disgyblion ac ar eu cyfer eu hunain. O ganlyniad, nid eir i'r afael yn ddigon effeithiol ag anghysondebau mewn darpariaeth a safonau ar draws yr ysgol bob amser.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i pherfformiad. Cânt y ddealltwriaeth hon trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth ac ymweliadau â'r ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei darpariaeth a'i safonau.

Mae arweinwyr yn gosod amserlen glir a rheolaidd ar gyfer monitro ac arfarnu'r ddarpariaeth a safonau. Maen nhw, a'r staff, yn defnyddio amrywiaeth addas o dystiolaeth er mwyn mesur perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i dargedu meysydd i'w gwella yn briodol, er enghraifft sut i wella'r ddarpariaeth a'r safonau mewn mathemateg a datblygiad mathemategol, yn ogystal â datblygu llythrennedd Saesneg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi meysydd pwysig i'w gwella trwy eu prosesau monitro ac arfarnu, megis datblygu dealltwriaeth gyson o asesiadau athrawon a safonau medrau llythrennedd Cymraeg yn y ffrwd Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, fel gostwng effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, gweithredu addysgeg y cyfnod sylfaen a datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn rheoli perfformiad yn briodol i gefnogi datblygiad proffesiynol yr holl staff. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd i'w datblygu a chytuno ar dargedau i helpu staff i wella'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. O ganlyniad, mae staff yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i ddatblygu'u harfer ymhellach. Er enghraifft, mae'r pennaeth a staff y cyfnod sylfaen wedi elwa o ymweliadau ag ysgolion eraill, sydd wedi cael effaith dda ar ddatblygu dull cyson o gyflwyno addysgeg y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau datblygu. Mae arweinwyr yn arfarnu gwariant allweddol yn drylwyr. Mae'r ysgol wedi datblygu llawer o fannau dysgu dan do ac awyr agored yn dda i fodloni anghenion ei disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Er enghraifft, mae staff, ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn defnyddio'r coetir helaeth i gynnig profiadau dysgu awyr agored cyffrous, sy'n cyfoethogi, i'r holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cynnig 'Pit Stops' i rieni grwpiau penodol o ddisgyblion. Yn ystod y sesiynau hyn, mae staff yn rhannu cyngor ar sut i gefnogi'u plant trwy wella'u presenoldeb, eu medrau darllen a'u medrau rhifedd. Hefyd, mae gweithdai drama yn caniatáu i rieni a'u plant gydweithio ar brosiectau diddorol a chyffrous, sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda, er enghraifft trwy greu fideo teithio trwy amser gyda'i gilydd yn ystod sesiynau 'Pit-stop' yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2018